# SPSF 3:
## Rôl gydweithredol
(byrddau gwasanaethau cyhoeddus)


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol

Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nodau llesiant

## Beth ydym yn anelu ato




# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

## Sut y byddwn yn cyflawni



Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 14, 22 (2) a 51 (1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Diwygio nod llesiant (Ebrill 2024)**

Mae adran 20 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn diwygio'r disgrifiad o nod llesiant "Cymru Lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi "gwaith teg" yn lle "gwaith addas". Daeth y diwygiad hwn i rym ar 1 Ebrill 2024. Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Ebrill 2024 i adlewyrchu'r newid hwn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 WG49742

ISBN digidol 978-1-83577-909-5

Darlun ar y blaen wedi'i gynllunio gan Freepik – www.freepik.com

# SPSP 3: Canllawiau Statudol ar gyfer Rhan 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

***Mae'r canllaw statudol hwn yn cael ei gyhoeddi o dan Adran 51(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.***

### Pennod 1 - Gweithredu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

- Cyfranogiad a Rolau
- Sefydlu'r bwrdd
- Is-grwpiau
- Cynrychiolaeth
- Adnoddau ar gyfer gwaith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus
- Cyfranogiad Ehangach

### Pennod 2 - Asesu cyflwr llesiant yn yr ardal

- Beth mae'n rhaid i'r asesiad ei gwmpasu
- Categorïau o bersonau y gellid eu cynnwys yn yr asesiad
- Sut i baratoi asesiad
- Asesiadau ac adolygiadau eraill a allai fod yn sylfaen ar gyfer asesiad o lesiant lleol

### Pennod 3 - Paratoi Cynllun Llesiant Lleol

- Amcanion lleol
- Camau y mae'r bwrdd yn bwriadu eu cymryd
- Ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Asesu'r effaith
- Adolygu cynllun llesiant lleol
- Bodloni dyletswyddau statudol eraill
- Rôl Cynghorau Cymuned wrth gwrdd ag amcanion lleol

### Pennod 4 - Ymrwymo (ymgysylltu ac ymgynghori)

- Ymgynghori ar yr asesiad
- Ymgynghori ar y Cynllun Llesiant Lleol a'i gymeradwyo
- Ymgysylltu â phobl eraill

### Pennod 5 - Adrodd ar gynnydd

- Llinell Amser
- Dangosyddion Perfformiad a Safonau

### Pennod 6 - Atebolrwydd Lleol

### Pennod 7 - Cyfuno a chydweithio

## Cyflwyniad

1. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud â "datblygu cynaliadwy" sef y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy gyda'r nod o gyflawni nodau llesiant (gweler isod, ac yn SPSF 1 - pennod 5).

2. Mae'r Ddeddf yn nodi "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut y dylai'r cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 y Ddeddf fynd ati i gyflawni eu dyletswydd llesiant o dan y Ddeddf. Yn y Ddeddf, mae unrhyw gyfeiriad a restrir at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

3. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ac yn rhoi disgrifiad o bob un:

| Nod llesiant | Disgrifiad |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac |

| | |
|---|---|
| | ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| <u>Cymru sy'n fwy cyfartal</u> | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| <u>Cymru o gymunedau cydlynol</u> | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| <u>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.</u> | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| <u>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.</u> | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

4. Mae'r saith nod llesiant (y nodau) yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn cynnig gweledigaeth a rennir ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Rhaid ystyried nodau llesiant fel set integredig o saith, hynny er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.


5. Yn ychwanegol at y ddyletswydd llesiant a roddir ar y cyrff cyhoeddus unigol penodedig a restrir (a drafodir yn SPSF 2), mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i weithredu ar y cyd drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

6. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r gofynion sy'n ymwneud â byrddau gwasanaethau cyhoeddus a nodir yn Rhan 4 y Ddeddf.

7. Mae'n rhaid i gyfraniad byrddau gwasanaethau cyhoeddus at gyflawni'r nodau gynnwys:

(a) asesu cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant yn eu hardaloedd;
(b) gosod amcanion lleol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl o fewn eu hardaloedd at gyflawni'r nodau hynny;
(c) cymryd pob cam rhesymol gan aelodau statudol y byrddau (wrth arfer eu swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hynny.

8. Cylch cynllunio byrddau gwasanaethau cyhoeddus:



# Pennod 1 - Gweithredu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus

9. Mae'r Ddeddf yn sefydlu bwrdd statudol, a elwir yn fwrdd gwasanaethau cyhoeddus, yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru.

10. Rhestrir pedwar aelod statudol pob bwrdd yn adran 29 y Ddeddf: sef yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub ar gyfer yr ardal a Chyfoeth Naturiol Cymru. Pan sonnir am aelodau statudol yn y canllaw hwn, golygir y cyrff y cyfeirir atynt yn yr adran honno.

11. Mae cyfeiriad at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn gyfeiriad at aelodau'r bwrdd hwnnw yn gweithredu ar y cyd, ac mae unrhyw un o swyddogaethau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn swyddogaeth pob aelod a dim ond ar y cyd y gellir ei harfer.

12. Mae aelodau statudol yn gyd-gyfrifol am gyflawni dyletswyddau statudol y bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen cytundeb unfrydol yr aelodau statudol o ran gwneud y dyletswyddau hyn (e.e. i gyhoeddi asesiadau o lesiant, chynlluniau llesiant lleol ac adroddiadau cynnydd blynyddol).

13. Fodd bynnag, ni wnaiff ac ni chaiff aelodau statudol weithio ar eu pennau eu hunain. Mae gan gyrff a sefydliadau eraill yn yr ardal gyfraniad gwerthfawr i'w wneud.

14. Mae'n *<u>ofynnol</u>* i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wahodd rhai pobl neu gyrff eraill i gymryd rhan, a chânt wahodd rhai eraill fel y gwelant yn dda cyn belled â'u bod yn ysgwyddo swyddogaethau o natur gyhoeddus (gweler paragraff 18). Pan fydd bwrdd yn gwahodd rhywun i gymryd rhan fel cyfranogwr gwadd, byddem yn disgwyl iddo gyfranogi'n llawn at waith y bwrdd (yn amodol ar baragraff 12).

15. Mae'n rhaid i gynrychiolwyr yr holl aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfod o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus i'r penderfyniadau a wneir yn ystod y cyfarfod hwnnw gael ei hystyried yn ddilys. Gweler y tabl ym mhara 34 am fanylion cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd y bwrdd.

## Cyfranogiad a Rolau

<u>Cyfranogwyr gwadd</u>

16. Rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus wahodd gwahoddedigion statudol penodol i gymryd rhan yng ngweithgaredd y bwrdd. Nid yw'n ofynnol i'r gwahoddedigion hyn dderbyn y gwahoddiad. Os ydynt yn derbyn y gwahoddiad nid ydynt yn dod yn aelodau statudol o'r bwrdd. Ond fel y dywedwyd eisoes, ni ddylai fod unrhyw beth i rwystro'r cyrff

hyn rhag cymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r bwrdd (yn amodol ar baragraff 12).

17. Bydd cyfranogwyr gwadd, ar ôl derbyn gwahoddiad, yn cydweithio â’r bwrdd ar unrhyw beth y bydd y bwrdd yn ei wneud o dan ei ddyletswydd llesiant, gan gynnwys asesu cyflwr llesiant yn ei ardal, gosod amcanion i gael y gorau o’i gyfraniad at gyflawni’r nodau a chymryd camau rhesymol at wireddu’r nodau hynny.  Mae hyn yn golygu y bydd hawl ganddynt gynnig sylwadau i’r bwrdd am asesu llesiant lleol a’r cynllun llesiant lleol, cymryd rhan yn ei gyfarfodydd a rhoi cymorth a chyngor arall.  Gall cynllun llesiant lleol ond cynnwys nodau all gael eu cyflawni trwy gamau a gymerir gan gyfranogwr gwadd (neu bartner arall) os ydy’r bwrdd wedi cael cytundeb y cyfranogwr gwadd (neu bartner arall) hwnnw.

18. Bydd gan y Bwrdd bwerau hefyd i wahodd unigolion neu gyrff eraill i gymryd rhan yn ei weithgareddau fel y tybia'n briodol, cyn belled ag y maent yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.  Mae p'un a yw corff yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus ai peidio yn fater cyfreithiol y mae angen i fyrddau ofyn am gyngor cyfreithiol yn ei gylch ond mae'r ffactorau a gymerir i ystyriaeth yn cynnwys, yn benodol, y graddau y mae'r corff wrth gyflawni swyddogaeth yn cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn arfer pwerau statudol, yn cymryd lle llywodraeth ganol neu'r awdurdodau lleol neu yn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

19. Gallai cyfranogwr wedi'i wahodd gymryd rhan yng ngweithgaredd bwrdd o'r diwrnod y mae'r bwrdd yn derbyn ei fod yn derbyn y gwahoddiad.

20. Rhaid anfon gwahoddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyfarfod cyntaf y bwrdd ac ar ôl pob cyfarfod a gynhelir ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredin gan awdurdod lleol.

21. Gallai gwahoddiad fod ar unrhyw ffurf y mae'r bwrdd yn penderfynu ond rhaid iddo nodi'r person y dylid anfon ymateb ato.

22. Rhaid i fwrdd wahodd y canlynol i gymryd rhan yng ngweithgaredd y bwrdd:




23. Gallai'r bwrdd weithio gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol i benderfynu pwy fyddai cynrychiolydd(wyr) mwyaf priodol sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

<u>Cynnwys partneriaid eraill</u>

24. Bydd yn ofynnol i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgysylltu â phartneriaid allweddol yn yr ardal sydd â diddordeb perthnasol yn llesiant yr ardal, neu sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig, wrth baratoi, gweithredu a darparu gwaith y bwrdd.

25. Maent yn cael eu henwi yn y Ddeddf fel 'partneriaid eraill' a'r rhain yw:




26. Gallai'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wahodd unrhyw un o'r partneriaid hyn i gymryd rhan lawnach yn ei weithgaredd fel cyfranogwr wedi'i wahodd.

27. Mater i bob bwrdd yw ystyried pa gyrff eraill, os o gwbl, y mae'n dymuno eu gwahodd i gymryd rhan yn ei waith fel cyfranogwyr gwadd a sut y mae am iddynt gyfranogi. Yr unig amod yw bod yn rhaid i'r cyfranogwyr gwadd ymarfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.


## Sefydlu'r bwrdd

28. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnal cyfarfod, o dan gadeiryddiaeth yr Awdurdod Lleol, ddim hwyrach na 60 niwrnod ar ôl dyddiad sefydlu'r bwrdd. Rhaid i'r bwrdd gynnal hefyd "gyfarfod gorfodol", ddim hwyrach na 60 niwrnod ar ôl pob etholiad cyffredin a gynhelir wedi hynny i ethol cynghorwyr. Mewn etholiad cyffredin, cynigir pob sedd ar gyfer ei hethol neu ei hailethol.

29. Gall y bwrdd benderfynu wedi hynny pryd a pha mor aml y dylai gwrdd.

30. Yr Awdurdod Lleol fydd cadeirydd cyfarfod cyntaf bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ond gall aelodau benodi aelod statudol arall neu gyfranogwr gwadd i gadeirio wedi hynny.

31. Yn y cyfarfod cyntaf, rhaid i fwrdd gytuno ar ei gylch gorchwyl, a rhaid i hwnnw gynnwys:




* i'r graddau nad yw wedi'i nodi gan y Ddeddf

Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus adolygu ei gylch gorchwyl ym mhob cyfarfod a gynhelir ar ôl dyddiad pob etholiad llywodraeth leol cyffredin. Ond gallai'r bwrdd ei adolygu, a chytuno i'w ddiwygio ar unrhyw adeg.

## Is-grwpiau

32. Mae'r bwrdd yn gallu sefydlu is-grwpiau i'w gefnogi wrth gyflawni ei swyddogaethau a gallai'r bwrdd awdurdodi is-grwpiau i ymarfer nifer cyfyngedig o swyddogaethau.

33. Rhaid i is-grŵp o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys o leiaf un aelod statudol o'r bwrdd. Caiff ddewis cynrychiolydd addas i fynd i gyfarfodydd i gyfrannu at waith yr is-grŵp. Gallai'r is-grŵp gynnwys unrhyw gyfranogwr gwadd neu bartner arall.

34. Bydd swyddogaethau'r is-grŵp yn cael eu llywio gan gylch gorchwyl y bwrdd.

35. **Ni all** y cylch gorchwyl hwnnw awdurdodi is-grŵp -
   (a) i wahodd pobl i gymryd rhan yng ngweithgaredd y bwrdd;
   (b) i osod, adolygu neu ddiwygio amcanion lleol y bwrdd;
   (c) i baratoi neu gyhoeddi asesiad o lesiant;
   (d) i ymgynghori ar asesiad o lesiant neu i baratoi drafft o asesiad at ddibenion ymgynghori;
   (e) i baratoi neu gyhoeddi cynllun llesiant lleol;
   (f) i ymgynghori ar gynllun llesiant lleol neu i baratoi drafft o gynllun llesiant lleol at ddibenion ymgynghori;
   (g) i adolygu neu ddiwygio cynllun llesiant lleol neu i gyhoeddi cynllun llesiant lleol diwygiedig;
   (h) i ymgynghori ar ddiwygiad i gynllun llesiant lleol;
   (i) i gytuno bod y bwrdd yn uno neu'n cydweithio â bwrdd gwasanaethau cyhoeddus arall.

36. Mae'r materion uchod yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod weithredu ar y cyd ac felly rhaid eu penderfynu gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ei hun.

37. Er nad yw’r is-grwpiau eu hunain yn cael cymeradwyo’r asesiad o lesiant lleol na’r cynllun llesiant lleol, na phenderfynu ar eu ffurf derfynol, disgwylir iddynt chwarae rhan bwysig o ran ymchwilio i ffurfiau drafft y cynhyrchion hyn a’u datblygu.

## Cynrychiolaeth

38. Mae'r Ddeddf yn nodi unigolion sy'n cynrychioli pob aelod statudol o'r bwrdd:

| Aelod | Cynrychiolydd |
|---|---|
| Awdurdod lleol | Maer wedi'i ethol yn uniongyrchol yr awdurdod neu'r cynghorydd a etholwyd yn arweinydd gweithredol yr awdurdod, a phennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod a ddynodwyd o dan adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). |
| Bwrdd Iechyd Lleol | Pa un bynnag o'r canlynol y mae'r bwrdd<br>yn ei ddynodi;<br>(a) y cadeirydd;<br>(b) y prif swyddog;<br>(c) y ddau. |
| Awdurdod Tân ac Achub Cymru | Pa un bynnag o'r canlynol y mae'r awdurdod yn ei ddynodi; |

| | |
|---|---|
| | (a) y cadeirydd;<br>(b) y prif swyddog;<br>(c) y ddau. |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru | Y prif weithredwr |

39. Ond mae aelod statudol, a chyfranogwr gwadd unrhyw fwrdd yn gallu dynodi unigolyn o'u sefydliad i'w cynrychioli.  Yr unig gyfyngiad yw mai dim ond aelod arall o weithrediaeth yr awdurdod y gallai maer a etholwyd yn uniongyrchol neu arweinydd gweithredol awdurdod lleol ei ddynodi.

40. Dylai'r person dynodedig fod â'r awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran y sefydliad.

41. Gallai'r bwrdd hefyd wahodd unrhyw rai o'i "bartneriaid eraill", neu unrhyw un arall y mae'n dymuno, i ddod i gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod.

## Adnoddau ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

42. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai cymorth gweinyddol yn cynnwys sicrhau bod y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd; paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd; gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb; gweithio ar yr adroddiad blynyddol a pharatoi tystiolaeth ar gyfer craffu.

43. Ond mater i'r bwrdd yw penderfynu sut y bydd yn canfod adnoddau ar gyfer y swyddogaethau y mae'n rhaid iddo eu cyflawni, a pha rai sy'n gyfrifoldeb yr holl aelodau statudol yn gyfartal. Mater i'r bwrdd yw penderfynu faint o adnoddau sy'n briodol ac yn gymesur i'w neilltuo i gynnal swyddogaethau cytun y bwrdd. Nid oes dim i atal cyfranogwyr wedi'u gwahodd neu bartneriaid eraill rhag darparu cyngor, cymorth, ac adnoddau i'r bwrdd, er enghraifft ar ffurf arbenigedd dadansoddol neu broffesiynol. Nid oes gofyn iddynt ddarparu cymorth ariannol ond cânt wneud os barnant fod ganddynt y pwerau i wneud hynny.

## Cyfranogiad Ehangach

44. Dylai'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus anelu at ymgysylltu'n bwrpasol gyda'r bobl a'r cymunedau yn yr ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, ym mhob agwedd ar ei waith.  Mae'n hanfodol fod y bwrdd yn ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth yr ardal y mae'r bwrdd yn ei gwasanaethu.

45. Er enghraifft, cydnabyddir y gallai gweithgareddau cyflogwyr mawr yn y sector preifat lleol gael effaith fawr ar lesiant ardal. Nid oes dim i atal bwrdd rhag gwahodd cyflogwyr o'r fath i fynychu cyfarfodydd bwrdd i drafod pryderon a gwneud awgrymiadau am yr hyn y dylai byrddau ei wneud a'r hyn y gallai cyflogwyr a'r sector preifat ei gyfrannu at gyflawni amcanion y bwrdd. Ond byddai'n rhaid i'r bwrdd fod yn glir ynghylch pam fyddai'r cyflogwr yn mynychu (nid i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd fel cyfranogwr wedi'i wahodd, ond i gyflwyno sylwadau a mynegi barn). Yn yr un modd nid oes dim i atal bwrdd rhag gwahodd grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau eraill, fel undebau llafur neu grwpiau ymgyrchu sy'n weithredol yn ardal y bwrdd, rhag mynychu cyfarfodydd y bwrdd at ddibenion tebyg.

46. Dylai byrddau ofalu eu bod yn sicrhau bod prosesau'r bwrdd yn briodol ac yn ddiduedd a dylent fod yn ymwybodol o'r risg o unrhyw ganfyddiad a allai ymddangos fod grŵp penodol yn cael mynediad at neu ddylanwad gormodol dros drafodaethau a gweithgareddau'r bwrdd.

## Pennod 2 - Asesu cyflwr llesiant yn yr ardal

47. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant yn ei ardal ddim hwyrach na blwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei gynllun llesiant lleol (gweler paragraff 54).

48. Mae'n hanfodol fod yr asesiad hwn yn rhoi dadansoddiad cywir o gyflwr llesiant ym mhob cymuned ac yn yr ardal yn ei chyfanrwydd. Rhoddir pwys sylweddol ar ddilysrwydd yr asesiad hwn oherwydd yr effaith y bydd y canfyddiadau a'r dadansoddiad yn eu cael wrth ddewis yr amcanion sydd i'w nodi yn y cynllun llesiant lleol.

49. Rhaid i'r bwrdd esbonio yn ei gynllun llesiant lleol sut mae eu hamcanion lleol ac unrhyw gamau y maent yn bwriadu eu cymryd wedi cael eu gosod mewn perthynas ag unrhyw faterion a grybwyllwyd yn yr asesiad, a dylid fod yn fodlon bod yr amcanion hynny yn ddigon cadarn i wrthsefyll craffu lleol. Felly, disgwylir y bydd y bwrdd yn defnyddio ystod eang o ffynonellau ar gyfer asesu cyflwr y llesiant, er enghraifft data'r cyfrifiad a data ystadegol; ymchwil academaidd; a thystiolaeth ansoddol sy'n crynhoi barn a chanfyddiadau pobl yn ogystal â rhoi cyd-destun i ddata meintiol (y stori tu ôl i'r data). Gallai'r cymariaethau hyn ddigwydd ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.

50. Mae sbectrwm eang o arbenigedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gael iddynt i dynnu arno, megis fforymau ieuenctid, grwpiau cymunedol, fforymau pobl hŷn, sefydliadau Cymraeg (megis Mentrau Iaith), cyrff amgylcheddol ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

51. Wrth baratoi ei asesiad o lesiant lleol, bydd bwrdd yn cael cyfle i nodi cryfderau ac asedau'r bobl a'u cymunedau. Dylai byrddau gydnabod y cryfderau a datblygu arnynt i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.

52. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r broses asesu a bydd gwneud archwiliad dyfnach o'r wybodaeth a'r data o ffynonellau fel y rhain yn helpu'r bwrdd baratoi cynnyrch mwy trylwyr. Bydd yn rhaid iddynt edrych ar y tymor hir, ystyried yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthynt am sut i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, a chynnwys pobl eraill sydd â diddordeb yn llesiant yr ardal.


53. Dylai byrddau ddisgwyl i bobl graffu ar y broses o sut y maent yn cytuno ar eu blaenoriaethau. Er mwyn sicrhau gwrthrychedd a chadernid eu penderfyniadau, bydd yn hanfodol casglu a dadansoddi tystiolaeth dda wrth baratoi asesiadau i deimlo'n fodlon bod eu blaenoriaethau yn adlewyrchu amrywiaeth problemau yn yr ardal yn gywir.

54. Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi ei asesiad o leiaf 12 mis cyn iddo gyhoeddi ei gynllun llesiant lleol. Gan fod y Ddeddf yn nodi bod rhaid i'r cynllun llesiant lleol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl etholiad cyffredin, fel y diffinnir hynny yn adran 26 Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn ymarferol mae hyn yn golygu y byddai'r asesiad o lesiant lleol yn cael ei gyhoeddi o fewn y 12 mis cyn pob etholiad llywodraeth leol cyffredin.

55. Yng ngoleuni hyn, bydd yn bwysig ystyried yn unol â'r Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, na ddylai cyhoeddusrwydd yn y cyfnod cyn etholiad ymdrin â materion dadleuol nac adrodd safbwyntiau, cynigion neu argymhellion mewn modd sy'n eu cysylltu ag aelodau unigol neu grwpiau o aelodau.

## Beth mae'n rhaid i'r asesiad ei gwmpasu

56. Wrth baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal, rhaid i fwrdd:




Ardaloedd cymunedol

57. Cyn belled â bod yr asesiad yn cydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir uchod, mater i'r bwrdd fydd penderfynu beth y mae'n ei gynnwys yn ei asesiad o lesiant lleol a sut y caiff ei strwythuro.

58. Mae'n rhaid i'r asesiad nodi'r ardaloedd cymunedol daearyddol o fewn ardal gyffredinol y bwrdd. Y bwriad yw bod y 'cymunedau' hyn yn gymdogaethau o fewn ardal y bwrdd sy'n ddigon mawr i ddangos gwahaniaethau rhyngddynt ac yn rhai sydd ag ymdeimlad o hunaniaeth, ond nid mor fach â wardiau etholiadol.

59. Gan fod ystadegau swyddogol yn gyffredinol yn cael eu talgrynnu i lawr i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) cydnabyddedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol byddai'n gwneud synnwyr ar gyfer yr ardaloedd cymunedol a nodwyd i gyd-fynd ag LSOAs lluosog yn hytrach na thorri ar eu traws.

60. Bwriedir i asesu llesiant pob cymuned sicrhau bod y gwahaniaethau rhwng y gwahanol gymunedau o fewn ardal bwrdd yn cael eu dadansoddi. Bydd y bwrdd yn cadw egwyddorion datblygu cynaliadwy (gweler SPSF 1 - pennod 1.5) mewn golwg wrth ddadansoddi'r gwahaniaethau hyn.

61. Er y gallai'r bwrdd ystyried cysoni'r ardaloedd cymunedol hyn gyda rhwydweithiau cymunedol sy'n bodoli eisoes megis 'cymdogaethau' awdurdodau lleol, clystyrau gofal sylfaenol neu glystyrau o gynghorau cymuned, ni fydd yr ardaloedd cymunedol a nodwyd ar gyfer diben yr asesiad o reidrwydd yn cyd-fynd â'r cynghorau cymuned o fewn ardal y bwrdd.

<u>Dadansoddi cyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol ac yn yr ardal yn ei chyfanrwydd;</u>

62. Bydd angen i'r bwrdd edrych ar gyflwr llesiant ar y lefel ardal gymunedol hon ac ar gyfer yr ardal yn ei chyfanrwydd - gan dynnu'r dadansoddiad ar lefel y gymuned hwn ynghyd gyda thystiolaeth a dadansoddiadau eraill i lunio barn ynghylch llesiant cyffredinol ardal yr awdurdod lleol.

63. Er enghraifft, gallai'r bwrdd ystyried llesiant cymunedau cynaliadwy. Wrth wneud hyn, byddai angen i'r graddau y mae cymuned yn byw mewn tlodi, neu sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y cymunedau hyn, fod yn ystyriaeth.

64. Byddai graddau'r anghydraddoldebau iechyd yn yr ardal, gan gynnwys cartrefi a chymunedau sy'n byw mewn tlodi yn ystyriaeth hefyd, fel y byddai ystyriaethau fel y perygl o lifogydd a chryfder yr ecosystemau.

<u>Dadansoddi cyflwr llesiant y bobl yn yr ardal</u>

65. Yn ogystal ag edrych ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cyffredinol yr ardal, bydd angen i'r asesiad edrych yn benodol ar lesiant y *bobl* yn yr ardal.

66. Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff bwrdd gynnwys dadansoddiad o lesiant categorïau penodol o bersonau yn ei ddadansoddiad o lesiant, gan gynnwys:

(a) Pobl sy'n cael eu hystyried **yn agored i niwed neu sydd dan anfantais**, er enghraifft y rhai sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n cael eu hallgáu'n ariannol neu sy'n profi cam-drin domestig; neu sy'n profi anghydraddoldeb incwm a phroblemau amgylcheddol.

(b) **Pobl sy'n meddu ar nodwedd warchodedig.** Y naw nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

(c) **Plant,** sef pobl dan 18 oed, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn tlodi a'r effaith mae hyn yn ei gael ar eu bywydau a'u llesiant cyffredinol; plant sy'n ddigartref, ceiswyr lloches, Sipsiwn a Theithwyr neu blant sy'n dioddef neu sy'n dyst i gam-drin domestig. Gallai byrddau elwa hefyd ar gymryd asesiadau effaith ar hawliau plant i ystyriaeth (ac ystyried y graddau y mae tlodi yn rhwystr i wireddu hawliau plant), wrth asesu anghenion.[1]

(d) Pobl ifanc sydd wedi **derbyn gofal, eu lletya neu eu maethu** ac sydd â hawl i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

(e) Pobl a allai fod angen **gofal a chymorth** fel y disgrifir yn Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu bobl sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth.

67. Efallai y bydd categorïau o bobl **ar wahân i'r rhai a restrir uchod** y gallai'r bwrdd ddymuno eu dadansoddi wrth asesu llesiant yr ardal.

68. Bydd cynnal dadansoddiadau yn cynorthwyo i ddeall anghenion y grwpiau hyn a'r hyn sy'n eu rhwystro rhag cyfranogi y cyfeirir ato ym mharagraff 66 yn well, y bydd llawer ohonynt yn cael eu gwthio i'r cyrion.

69. Gallai fframweithiau polisi Llywodraeth Cymru megis dangosyddion llesiant[2], Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig Llywodraeth Cymru[3] a

[1] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/GEN-LD9732%20-%20Children's%20Rights%20Scheme%202014-22042014-255569/gen-ld9732-e-English.pdf
[2] http://www.olderpeoplewales.com/en/news/news/15-03-19/Wellbeing_Indicators_for_Older_People.aspx#.VYgVr9JFDcs – Cyhoeddwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
[3] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/?lang=en

Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi[4] helpu Byrddau i asesu anghenion plant mewn tlodi. Yn yr un modd, gallai Strategaeth y Gymraeg[5] helpu byrddau i asesu anghenion siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith a gallai dangosyddion llesiant pobl hŷn helpu byrddau i nodi anghenion pobl hŷn eu cymunedau.

Rhagfynegiadau o dueddiadau sy'n debygol yn y dyfodol

70. Rhaid i'r asesiad gynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.

71. Rhaid i'r dadansoddiad gyfeirio at adroddiad ar dueddiadau'r dyfodol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 11 (unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi) i'r graddau ei fod yn berthnasol ar gyfer asesu llesiant yn yr ardal.

72. Bydd hyn yn galluogi'r bwrdd i sicrhau ei fod yn cymryd anghenion hirdymor yn ogystal â thymor byr yr ardal i ystyriaeth.

Dangosyddion Cenedlaethol

73. Mae'n rhaid i'r asesiad o lesiant lleol gyfeirio at unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10 y Ddeddf. Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau. Byddant yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

74. Mae'r dangosyddion cenedlaethol yn fesurau ar lefel poblogaeth sy'n helpu i gloriannu cynnydd yn unol â'r nodau sydd wedi'u gosod allan yn y Ddeddf. Nid dangosyddion perfformiad mohonynt ac nid cyfrifioldeb un corff cyhoeddus neu fwrdd gwasanaethau cyhoeddus unigol mohonynt chwaith.

Dadansoddiad pellach gan y bwrdd

75. Gallai'r asesiad gynnwys unrhyw dystiolaeth arall sy'n ymwneud â llesiant yr ardal y mae'r bwrdd yn ystyried sy'n briodol.

76. Rhaid i'r asesiad gynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae'r bwrdd yn ei gynnal, trwy gyfeirio at feini prawf sydd wedi'u creu'n unswydd er mwyn asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal neu mewn unrhyw gymuned a leolir yn yr ardal. Mater i'r bwrdd yw penderfynu pa feini prawf y mae'n dymuno eu gosod ar gyfer y dadansoddiad hwn.

[4] http://gov.wales/topics/people-and-communities/tackling-poverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?lang=en
[5] http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-language-strategy/?lang=en

77. Gallai'r dadansoddiad hwn gynnwys unrhyw astudiaeth neu wybodaeth sy'n ymwneud â llesiant yr ardal; er enghraifft, astudiaethau achos o enghreifftiau lle mae sefydliadau wedi rhannu data neu gydweithio'n llwyddiannus.

## Defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad

78. I gynorthwyo'r bwrdd â'r broses o gynhyrchu asesiad o lesiant lleol a defnyddio tystiolaeth a dadansoddiad yn fwy cyffredinol, darperir canllawiau anstatudol *"Asesiadau o Lesiant Lleol: canllawiau ar y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad"*[6].

79. Mae'r canllawiau yn cynnig cyngor i fyrddau ar sut i ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad mewn ffyrdd beirniadol ond adeiladol, er mwyn:
    - deall y canlyniadau y mae gwasanaethau yn gweithio tuag atynt a'r ffactorau sy'n dylanwadu arnynt yn well;
    - nodi'n rhesymegol y cysylltiadau rhwng y gweithgareddau y mae gwasanaethau yn eu cyflawni a llesiant pobl yn yr ardal;
    - cyflwyno asesiad cyflawn o lesiant trwy gynnwys amrywiaeth eang o ffynonellau a defnyddio tystiolaeth ansoddol i ategu data a datblygu esboniadau;
    - sicrhau defnydd mwy cyson o ddata;
    - bod yn glir ynghylch y rolau y bydd dinasyddion yn eu chwarae yn yr Asesiad a phryd a sut i ymgysylltu'n effeithiol.

80. Mae'r Canllawiau hefyd yn disgrifio sut y gallai'r defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad gael eu rhannu'n ddefnyddiol i ddwy brif elfen, sef y "dadansoddiad o'r sefyllfa" - braslun o lesiant ardal y bwrdd er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r ardal (asesiad o lesiant lleol); a'r "dadansoddiad o'r ymateb" - dadansoddiad manwl o bynciau a themâu unigol i helpu i ddatblygu'r cynllun llesiant lleol.

## Asesiadau ac adolygiadau eraill sy'n sail i asesu llesiant lleol

81. Mae'r Ddeddf yn nodi nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol y mae'n rhaid i'r bwrdd eu hystyried wrth baratoi ei asesiad.

82. Dyma'r rhai mwyaf diweddar:

a) asesiad o'r risgiau o effaith cyfredol a disgwyliedig newid yn yr hinsawdd ar gyfer y Deyrnas Unedig a anfonwyd at Weinidogion Cymru o dan adran 56(6) Deddf Newid Hinsawdd 2008 (p.27);
b) adolygiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth addysg feithrin ar gyfer ardal yr awdurdod lleol a gyflawnwyd o dan adran 119(5)(a) Deddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998 (p.31);

[6] http://llyw.cymru/topics/improvingservices/public-services-boards/?lang=cy

c) asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 26(1) Deddf Gofal Plant 2006 (p.21);
d) asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd o dan adran 1(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010;
e) asesiad a wnaed gan yr awdurdod lleol ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yr "asesiad poblogaeth" o anghenion am ofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol);
f) asesiad strategol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p.37) sy'n ymwneud â lleihau trosedd ac anrhefn yn ardal yr awdurdod lleol;
g) asesiad strategol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ardal yr awdurdod lleol;
h) Pob datganiad ardal o dan adran 11 Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2016, unwaith y daw i rym, sy’n ymwneud ag unrhyw ran o ardal yr awdurdod lleol.
i) asesiad strategol a baratowyd yn unol â rheoliadau o dan yr adran honno mewn perthynas â lleihau aildroseddu yn ardal yr awdurdod lleol;

83. O dan (a) uchod, byddai'n fuddiol i'r bwrdd gyfeirio at yr Asesiad Risg ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd i Gymru[7] sy'n rhoi asesiad cenedlaethol o risgiau a chyfleoedd posibl yn sgîl newid yn yr hinsawdd sy'n wynebu Cymru. Cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer gwahanol senarios posibl yn y dyfodol ac maent yn cynnwys arwydd o hyder yn y canlyniadau a'r meysydd lle mae bylchau mewn tystiolaeth.

84. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu diweddaru'r rhestr hon o adolygiadau statudol ac asesiadau drwy reoliadau, ond nid oes dim i atal byrddau rhag ystyried asesiadau ac adolygiadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol eraill os teimlant y byddant yn cyfrannu at ei asesiad o lesiant lleol. Gallai hyn gynnwys unrhyw asesiadau o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal sy'n bodoli ond nad oes ganddynt sail statudol.

85. Rhaid i’r bwrdd gynnal ei asesiad ei hun o lesiant ei ardal a'r bobl sydd ynddi a gall droi at yr adolygiadau a'r asesiadau a restrir yn ogystal ag ystyried corff ehangach o wybodaeth.

86. Cydnabyddir y bydd nifer o'r asesiadau statudol hyn yn cael eu paratoi o fewn amserlen debyg i'r asesiad o lesiant lleol. Disgwylir y gellir gwneud gwaith arnynt ochr yn ochr, gyda thystiolaeth yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i bwydo i mewn i asesiadau lluosog yr un pryd

[7] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?lang=en

(yn hytrach nag aros i asesiad gael ei gyhoeddi'n ffurfiol cyn cymryd ei ganfyddiadau i ystyriaeth ar gyfer asesu llesiant lleol).

87. Nid oes unrhyw reswm pam y byddai unrhyw ddyblygu o ran tystiolaeth a gasglwyd / dadansoddiad a wnaed - mae'r asesiadau penodol hyn yn ffurfio rhan o'r darlun ehangach o'r ardal y bydd yr asesiad o lesiant lleol yn ei gynnwys.

# Pennod 3 - Paratoi Cynllun Llesiant Lleol

88. Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w bodloni.

89. Rhaid i gynllun llesiant lleol cyntaf bwrdd gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl yr etholiad llywodraeth leol cyffredin cyntaf ar ôl dechrau Rhan 4 y Ddeddf. Yna mae'n rhaid i'r bwrdd gyhoeddi cynllun llesiant lleol heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredin dilynol.

90. Bydd y cynllun llesiant lleol yn nodi sut mae'r bwrdd yn bwriadu gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy osod amcanion lleol a fydd yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl gan y bwrdd tuag at gyflawni amcanion llesiant yn ei ardal.

91. Mae dwy brif elfen mewn cynllun llesiant lleol:
    (a) yr amcanion lleol; a'r
    (b) camau y mae'r bwrdd yn bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion

## Amcanion lleol

92. Yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dylai'r amcanion lleol geisio mabwysiadu dull integredig o gyflawni yn erbyn y nodau llesiant - gan ystyried sut y gallai'r amcanion effeithio ar bob un o'r nodau (ac ar yr amcanion lleol eraill). Gallai un amcan gyflawni yn erbyn targedau lluosog.

93. Rhaid i'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef yr angen i sicrhau nad yw'r camau a gymerir gan gyrff cyhoeddus i wella llesiant pobl yn awr yn cael effaith niweidiol ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cyflawni dros y tymor byr a gweithredu yng nghyd-destun y tymor hir. Mae'n bwysig cofio bod y tymor hir yn gallu golygu pethau gwahanol gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw.

94. Wrth ddewis amcanion lleol ac unrhyw gamau arfaethedig rhaid i'r bwrdd roi sylw i unrhyw faterion a grybwyllir yn yr asesiad o lesiant lleol. Dylai'r asesiad ddarparu'r sail dystiolaeth gadarn i fwrdd benderfynu ynghylch (a chyfiawnhau) yr amcanion lleol mae'n eu gosod. Dylai'r amcanion lleol a osodir adlewyrchu lle mae'r bwrdd wedi penderfynu y gellir gweithredu ar y cyd a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwr llesiant yn yr ardal.

95. Mae aelodau statudol y bwrdd hefyd yn ddarostyngedig yn unigol i'r ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac mae'n ofynnol iddynt bennu eu hamcanion llesiant eu hunain. Mae'n ddigon posibl y gall y nodau

llesiant sydd wedi'u pennu yn y cynllun llesiant lleol fod yr un rhai â'r rheini y mae cyrff cyhoeddus sy'n gorfod gwneud y ddyletswydd unigol wedi dewis eu mabwysiadu eu hunain. Fe welir enghreifftiau pan fydd y nodau llesiant a bennir gan y cyrff cyhoeddus yn flaenoriaethau cytun ar gyfer yr ardal.

96. Gallai aelodau statudol ddewis cynnwys eu hamcanion llesiant unigol yn y cynllun llesiant lleol, os yw aelodau eraill y bwrdd yn cytuno.

## Camau y mae'r bwrdd yn bwriadu eu cymryd

97. Rhaid i'r bwrdd gymryd **pob cam rhesymol** i fodloni'r amcanion lleol y maent wedi eu gosod, i'w cyflawni ar y cyd. Mater i'r bwrdd yw llunio ei farn ei hun ynghylch pa gamau y byddai'n rhesymol eu cymryd, ar sail ei wybodaeth a'i ystyriaeth ei hun o amgylchiadau a nodweddion ei ardal.

98. Yn ychwanegol at yr amcanion sydd i'w bodloni gan aelod neu aelodau statudol y bwrdd, gallai'r cynllun gynnwys camau i'w cymryd gan gyfranogwyr wedi'u gwahodd neu bartneriaid eraill sy'n gweithredu yn unigol neu ar y cyd. Ond gallai cynllun gynnwys yr amcanion neu'r camau hynny dim ond os yw'r bwrdd yn cael cytundeb y cyfranogwyr wedi'u gwahodd neu bartneriaid perthnasol eraill.


99. Rhaid i'r camau gael eu cymryd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler SPSF 1). Er enghraifft, gellir cymryd camau gan aelodau statudol unigol, ond gellir eu cymryd hefyd ar y cyd, mewn cydweithrediad ag aelodau statudol a phartneriaid eraill. Dylai byrddau ystyried a oes pobl eraill yn yr ardal sydd â diddordeb mewn llesiant a allai gyfrannu at ei wella.

100. Wrth baratoi ei gynllun llesiant lleol (a chyn ymgynghori) gallai bwrdd fynnu bod unrhyw berson y mae wedi'i wahodd i gymryd rhan yn ei weithgareddau (ac eithrio Gweinidogion Cymru) a phartneriaid eraill yn darparu gwybodaeth am unrhyw gamau y maent yn eu cymryd a allai gyfrannu at gyflawni amcanion llesiant o fewn ardal y bwrdd. Ond nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth os

(a) ydynt yn ystyried y byddai'n anghydnaws â'u dyletswyddau, neu
(b) gallai gael effaith andwyol ar arfer eu swyddogaethau, neu
(c) eu bod wedi eu gwahardd rhag ei darparu yn ôl y gyfraith.

Os yw person yn penderfynu peidio â rhoi gwybodaeth y mae'r bwrdd wedi gofyn amdani rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig am ei benderfyniad i'r bwrdd.

101. Rhaid i'r cynllun llesiant lleol:




102. Dylai'r cynllun gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r bwrdd yn ystyried sy'n briodol.

## Ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

103. Cydnabyddir na fydd ceisio bodloni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn dasg hawdd. Rôl y Comisiynydd yw rhoi cyngor ar sut i wneud hyn, gan bwyso ar y ddealltwriaeth o arferion da. Rôl y Comisiynydd felly yw bod yn gefnogol ac adeiladol.

104. Wrth ddrafftio eu cynlluniau llesiant lleol, rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ofyn am gyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol Cymru, ar sut i gymryd camau i fodloni eu hamcanion lleol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

105. Wrth bennu ei amcanion lleol, rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf a baratowyd gan y Comisiynydd. Bydd hwn yn rhoi asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

106. Bydd gan y Comisiynydd hyd at 14 wythnos i roi'r cyngor hwn a dylai byrddau roi ystyriaeth i hyn yn eu hamserlenni ar gyfer paratoi'r cynllun llesiant lleol (gweler para 157 am ragor o fanylion).

107. Rhaid i'r bwrdd gyhoeddi cyngor y Comisiynydd yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol.

108. Efallai y bydd y bwrdd hefyd yn dymuno gofyn am gyngor Comisiynwyr eraill wrth ddewis amcanion lleol i ddyfnhau eu dealltwriaeth o anghenion amrywiol yr ardal.

109. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus anfon copi o'i gynllun llesiant lleol at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

## Asesu'r effaith

110. Nid yw bwrdd gwasanaethau cyhoeddus o dan ddyletswydd i gynnal asesiadau o effaith ffurfiol. Ond gallent ystyried bod hyn yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am faterion y byddai aelodau'r bwrdd yn disgwyl eu hystyried beth bynnag os ydynt i asesu lles eu hardal yn ystyrlon. Gallai'r Comisiynwyr Pobl Hŷn, Plant, y Gymraeg a Chydraddoldebau helpu'r byrddau yn hyn o beth hefyd.

111. Yn ogystal, efallai y bydd angen i aelodau statudol unigol o'r bwrdd gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, ac efallai y bydd yn ddefnyddiol gwneud defnydd o'r rhain i ystyried effaith penderfyniadau ar wahanol bobl o fewn y gymuned o lefel y bwrdd. Mae'n bwysig cofio y gellid effeithio ar y bobl hyn mewn sawl ffordd wahanol.

112. Dyma feysydd y dylid eu hystyried:

*Cydraddoldeb a Hawliau Dynol*

113. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i:

(a) ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf honno;
(b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a
(c) meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

114. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol i gyd yn nodweddion gwarchodedig.

115. Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru bennu amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ymgysylltu'n eang ar yr agweddau hyn ac agweddau eraill ar eu

gwaith, a chasglu a dadansoddi data cydraddoldeb sy'n sylfaen i'w hasesiad o effaith ar gydraddoldeb, a'r modd maent yn gosod amcanion. Gallai'r Amcanion Cydraddoldeb a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru[8] helpu byrddau i nodi camau gweithredu ac amcanion a fydd yn eu helpu i ddiogelu hawliau'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)*

116. Mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i fabwysiadu'r CCUHP (UNCRC) fel sail ar gyfer ei holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r Saith Nod Craidd[9] yn eu hanfod yn grynodeb o'r CCUHP a ddylai fod yn sail i arferion gwaith unrhyw wasanaeth neu sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

117. Mae llawer iawn o waith pwysig wedi ei wneud dros y degawd diwethaf i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu cydnabod a'u parchu a bod eu llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi, gan arwain at wasanaethau a chymorth priodol ac effeithiol. Dylai cynllun llesiant lleol ddatblygu ar y gwaith hwn, gan gadw ffocws cryf ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol, gyda CCUHP a'r Saith Nod Craidd fel y datganiad sylfaenol o egwyddorion y seilir y canlyniadau hyn arnynt.

118. Mae Erthygl 12 o CCUHP yn hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan a chael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn hawl sy'n galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at yr holl hawliau eraill yn y Confensiwn. Mae hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol fel y nodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (gweler Atodiad A ac Atodiad B). Dylai'r ddyletswydd hon gael ei gwneud trwy'r broses o gynhyrchu cynllun llesiant lleol.

*Tlodi*

119. Mae tlodi yn rhwystr mawr i blant a phobl ifanc gyflawni canlyniadau gwell mewn bywyd.

120. Mae paratoi cynllun llesiant lleol yn rhoi cyfle i fyrddau gryfhau eu dull cydweithredol o ymdrin â thlodi. Mae Gweinidogion Cymru'n credu y dylai'r bwrdd ystyried y gwahanol agweddau ar dlodi, fel tlodi plant, a sut mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant wrth nodi ei amcanion lleol. Nid yw trechu tlodi yn ymwneud ag incwm yn

[8] http://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/?lang=en

[9] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/sevencoreaims/?lang=en

unig, mae'n ymwneud â nifer o ganlyniadau gwahanol, gan gynnwys iechyd, addysg, cyflogaeth, sgiliau a chyfle cyfartal.

121. Lle bwriedir i amcanion lleol a chamau gweithredu lleol wneud cyfraniad at ymdrin ag anghenion plant a theuluoedd sy'n byw mewn cartrefi gydag incwm isel, byddai o gymorth pe gallai'r rhain gael eu gwneud yn eglur.

*Y Gymraeg*

122. Wrth baratoi a chyflawni eu cynlluniau llesiant lleol rhaid i aelodau sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol ag unrhyw ddyletswyddau a osodir arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth (hy Safonau'r Gymraeg) neu, hyd nes y daw'n orfodol iddynt gydymffurfio â dyletswyddau o'r fath, gyda'u cynlluniau Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Yn ymarferol, bydd Safonau yn cael eu gosod ar Awdurdodau Lleol cyn yr aelodau statudol eraill.

123. Dylai'r Gymraeg gael ystyriaeth briodol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r cynllun llesiant lleol gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'. Lle nodir canlyniadau penodol fel blaenoriaethau ee hyrwyddo neu amddiffyn yr iaith, neu sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog digonol yn cael eu darparu i ddiwallu angen lleol, dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol.

*Y ddyletswydd ynghylch cadernid ecosystemau (Bioamrywiaeth)*

124. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wyrdroi’r dirywiad yn ein bioamrywiaeth yng Nghymru a chryfhau ein hecosystemau er mwyn inni allu cyflawni nodau llesiant Cymru, bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru), pan ddaw i rym, yn cyflwyno dyletswydd newydd am fioamrywiaeth.

125. Mae’r ddyletswydd newydd yn rhoi awdurdodau cyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau, o dan ddyletswydd newydd i gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth ac wrth wneud hynny, i gryfhau ecosystemau. Bydd y ddyletswydd gryfach newydd hon yn tanlinellu lle bioamrywiaeth fel elfen hanfodol o gadernid unrhyw ecosystemau. Y bwriad o wneud hynny yw i awdurdod cyhoeddus allu cyfrannu at ddiogelu’r gwasanaethau a ddarperir gan ein hecosystemau yn y tymor hir, sy’n cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

126. Rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried datganiadau ardal wrth asesu llesiant a throi hefyd at y dystiolaeth a gafwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Mae datganiadau ardal yn rhoi tystiolaeth a rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried y dystiolaeth honno wrth ddatblygu cynlluniau llesiant lleol. Gall y

Byrddau droi hefyd at yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol fel rhan o'r broses honno.

## Adolygu cynllun llesiant lleol

127. Gallai bwrdd gwasanaethau cyhoeddus adolygu a diwygio ei amcanion lleol a/neu ei gynllun llesiant lleol (ee y camau y bwriada eu cymryd i fodloni'r amcanion) unrhyw bryd y dymuna.

128. Rhaid iddo hefyd adolygu ei amcanion lleol neu ei gynllun llesiant lleol os gofynnir iddo wneud hynny gan Weinidogion Cymru. Cyn rhoi cyfarwyddyd o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros wneud hynny.

129. Cyn gwneud diwygiad naill ai i'r amcanion lleol neu i'r cynllun llesiant lleol ehangach rhaid i'r bwrdd ymgynghori â'r un bobl ag y mae'n rhaid iddo wrth baratoi cynllun llesiant lleol newydd.

130. Rhaid i gynllun diwygiedig gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

131. Rhaid i'r bwrdd anfon copi o unrhyw gynllun diwygiedig at Weinidogion Cymru; y Comisiynydd; Archwilydd Cyffredinol Cymru; a phwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yr awdurdod lleol.

## Bodloni dyletswyddau statudol eraill

132. Bydd cynllunio cymunedol integredig yn cynnwys cwmpas llawn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae cynlluniau llesiant lleol yn un o'r prif ffyrdd i'r cyrff dan sylw ddangos eu bod wedi sicrhau gwelliannau tymor hir i lesiant yn eu hardal, ac i ddangos sut y maent wedi cyflawni eu dyletswydd datblygu cynaliadwy (gweler SPSF 1).

133. Bwriedir i gynlluniau llesiant lleol ddarparu dull mwy cyfannol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd at gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

134. Fel rhan o symleiddio trefniadau partneriaeth a chynllunio mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi diddymu nifer o ddyletswyddau statudol blaenorol i gynhyrchu cynlluniau a strategaethau ar wahân:

(a) Y gofyniad i awdurdodau lleol lunio Strategaeth Gymunedol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009;
(b) Y gofyniad i awdurdodau lleol gynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc o dan Ddeddf Plant 2004;

(c) Y gofyniad i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gynhyrchu strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

135. **Nid yw'r Ddeddf yn cael gwared ar y dyletswyddau sylweddol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth i anghenion y grwpiau yr oedd y cynlluniau hyn yn eu cwmpasu; y cyfan y mae'n ei wneud yw symleiddio'r modd y mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni.**

136. Gellir defnyddio'r cynllun llesiant lleol fel cyfrwng i gyflawni dyletswyddau neu ofynion statudol eraill, hynny wedi cyhoeddi'r cynllun llesiant lleol:

- Mae'r broses cynllunio cymunedol a ragwelwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn awr yn cael ei darparu drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus;
- Mae'n ofynnol o hyd i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant ond erbyn hyn gallai gwybodaeth am y trefniadau hyn gael ei chynnwys yn y cynllun llesiant lleol yn hytrach na thrwy gynlluniau ar wahân;
- Mae'n ofynnol o hyd i awdurdodau lleol ac 'awdurdodau Cymreig' eraill baratoi strategaethau sy'n bodloni'r gofynion a nodir ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 i gyfrannu at ddileu tlodi plant, ond gallant yn awr eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol;
- Yn yr un modd gallai'r cynllun ar gyfer darparu cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol gael ei gofnodi drwy ei gynnwys yn y cynllun llesiant lleol;
- Gallai'r cynllun llesiant lleol gael ei ddefnyddio i gyhoeddi'r cynlluniau newydd a fydd yn cael eu cynhyrchu mewn ymateb i'r asesiad o anghenion o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).
- Yn yr un modd, gellir cyhoeddi strategaeth leol neu strategaeth ddiwygiedig fel sy'n ofynnol o dan Adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 drwy ei chynnwys o fewn cynllun llesiant lleol.

137. Bydd awdurdodau lleol hefyd o dan ddyletswydd, o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, i baratoi strategaethau i hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

138. Ystyrir y bydd cyrff sy'n gorfod cyflawni'r dyletswyddau statudol hyn wedi cyflawni'r elfennau sy'n ymwneud â llunio cynlluniau a strategaethau cyhyd ag y bo cynnwys y cynlluniau a'r strategaethau

hynny yn y cynllun llesiant lleol yn bodloni'r gofynion a nodir yn y darnau perthnasol o ddeddfwriaeth.

139. **Os nad yw'r ddyletswydd statudol i lunio cynllun neu strategaeth wedi'i llwyr fodloni wrth ymgorffori cynllun neu strategaeth yn y cynllun llesiant lleol, yna bydd angen gwneud y ddyletswydd ar wahân.**

140. Mae Atodiad A yn nodi'n fanylach y dyletswyddau statudol a'r gofynion cynllunio y gellir eu cyflwyno drwy gynllun llesiant lleol.

141. Yn ychwanegol at y dyletswyddau statudol y mae darpariaeth benodol i gyflawni o'u mewn drwy'r cynllun llesiant, bydd byrddau yn dal i allu cynnwys strategaethau diogelwch cymunedol yn eu cynllun llesiant. Fel yn achos y dyletswyddau statudol eraill, bydd angen i fyrddau fodloni eu hunain eu bod wedi diwallu'r gofynion yn llawn, ac mae manylion yn Atodiad A. Er nad yw'r Ddeddf yn gofyn am hynny, anogir byrddau i ystyried sut y mae amcanion lleol yn ategu blaenoriaethau Cynlluniau Lleihau Troseddau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chynlluniau eraill fel cynlluniau cyfiawnder ieuenctid yr ardal.

142. Wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol roi ystyriaeth i'r Cynllun Llesiant Lleol: er enghraifft wrth ymdrin â sut i gyflawni amcanion lleol sy'n ymwneud â defnyddio tir a datblygu tir yn yr ardal.

## Rôl Cynghorau Cymuned wrth fodloni amcanion lleol

143. Bydd yn ofynnol i'r cynghorau cymuned a thref hynny sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion lleol a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol sy'n cael effaith yn eu hardal. Byddai'r holl gynghorau cymuned yn gallu, ac yn cael eu hannog, i ystyried sut y gallant gyfrannu at gyflawni'r amcanion lleol, waeth a oes dyletswydd arnynt i wneud hynny neu beidio..

144. Yng ngoleuni hyn byddai disgwyl i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r cynghorau cymuned a fydd yn cael eu rhwymo gan y ddyletswydd a sicrhau bod y cynghorau hyn yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o nodi amcanion lleol.

145. Gallai camau a gymerwyd gan gyngor cymuned gael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol ei hun fel cam a gymerir gan bartner.

146. Bydd gofyn i'r cynghorau cymuned sydd o dan y ddyletswydd gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ganddo.

# Pennod 4 - Ymrwymo (ymgysylltu ac ymgynghori)

147. Wrth baratoi ei asesiad o lesiant lleol a'i gynllun llesiant lleol, mae'n ofynnol i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori'n llawn â:

| | |
|---|---|
| Rhai yr Ymgynghorir â hwy yn Statudol | y Comisiynydd;<br>y cyfranogwyr a wahoddwyd gan y Bwrdd;<br>ei bartneriaid eraill;<br>pa rai bynnag o'r personau a gafodd ond na wnaeth dderbyn gwahoddiad gan y bwrdd o dan Adran 30 fel yr ystyria'r bwrdd yn briodol; |
| | pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol;<br>sefydliadau gwirfoddol perthnasol fel y mae'r bwrdd yn ystyried yn briodol;<br>cynrychiolwyr pobl sy'n byw yn yr ardal;<br>cynrychiolwyr pobl sy'n cynnal busnes yn yr ardal;<br>undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yn yr ardal; |
| | pobl gyda diddordeb mewn cynnal a gwella adnoddau naturiol yn ardal y bwrdd, fel yr ystyria'r bwrdd yn briodol;<br>unrhyw bersonau eraill sydd ym marn y bwrdd, â diddordeb yn y gwaith o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. |

## Ymgynghoriad ar yr asesiad

148. Cyn cyhoeddi eu hasesiad o lesiant lleol, rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â'r personau a amlinellir uchod. Rhaid i'r bwrdd roi copi o'u hasesiad drafft i bob un o'r bobl a restrir.

149. Yn wahanol i'r ymgynghori ar gyfer y cynllun llesiant lleol drafft, nid oes amserlen benodol ar gyfer hyn, ond mae'n ofyniad cyfreithiol bod digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer rhoi sylw ystyrlon i'r asesiad drafft gan y bobl a restrir uchod er mwyn iddynt allu rhoi ymateb ystyrlon iddo.

150. Rhaid i'r bwrdd anfon copi o'i asesiad a gyhoeddwyd at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

151. Ceir canllawiau anstatudol pellach ynghylch rôl dinasyddion mewn asesiadau yn *"Asesiadau o Lesiant Lleol: Canllawiau ar y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad"*

## Ymgynghori a chymeradwyo'r Cynllun Llesiant Lleol

152. Cyn ymgynghori ar y cynllun, efallai y bydd y bwrdd yn gofyn i unrhyw berson a wahoddwyd i gymryd rhan yng ngweithgaredd y bwrdd (heblaw Gweinidogion Cymru) neu ei bartneriaid eraill roi gwybodaeth am unrhyw rai o'u gweithgareddau a allai gyfrannu o fewn ardal y bwrdd at gyflawni'r nodau llesiant.


153. Rhaid i'r bwrdd ofyn am gyngor y Comisiynydd hefyd. Bydd y cyngor hwn yn berthnasol i sut y gallai'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fodloni eu hamcanion arfaethedig mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

154. Cyn cyhoeddi eu cynllun llesiant lleol, rhaid i'r bwrdd ymgynghori, am o leiaf 12 wythnos, gyda'r bobl hynny a restrir yn y tabl uchod. Rhaid i'r bwrdd roi copi o'u cynllun llesiant lleol drafft i bob un o'r bobl a restrir fel rhan o'r ymgynghoriad.

155. Cyn y gallai'r cynllun gael ei gyhoeddi mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan aelodau statudol y bwrdd. Os yw'r awdurdod lleol yn gweithredu trefniadau gweithredol, rhaid i'r cynllun llesiant lleol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn. Mewn perthynas â Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdod tân ac achub Cymru a Chorff Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Cymru, dim ond mewn cyfarfod o'r corff dan sylw y gallai'r cynllun llesiant lleol gael ei gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi.

156. Mae'r broses o baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn debygol o gymryd tua 41 wythnos (fel y nodir ym mharagraff 157). Ond nid yw'r amcangyfrif hwnnw yn caniatáu ar gyfer llithriant a gallai'r broses mewn gwirionedd gymryd mwy o amser.

157. Camau'r Cynllun Llesiant:




## Ymgysylltu â phobl eraill

158. Rhaid i gylch gorchwyl bwrdd gynnwys, ymhlith pethau eraill, gynigion ar gyfer cynnwys pobl y mae'r bwrdd yn meddwl sydd â diddordeb yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Yn ogystal â hyn, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gorfodi cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig iddi i roi sylw i bwysigrwydd ymgysylltu a sicrhau bod y personau hynny yn adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru, ac ardaloedd penodol o Gymru lle mae'r corff yn gweithredu.

159. Dylai ymgysylltu â dinasyddion fynd y tu hwnt i gymryd rhan mewn cynllunio cymunedol. Gallai llais y dinesydd fod yn arf pwerus ar gyfer deall lle mae methiannau yn digwydd yn y system, lle mae diffyg cydlynu rhwng darparwyr gwasanaeth yn gwastraffu adnoddau heb wella canlyniadau, i ail-ddylunio gwasanaethau o amgylch anghenion pobl, ac i graffu ar effeithiolrwydd gwasanaeth.

160. Mae'n bwysig nodi bod yna lawer o bobl, yn enwedig y rheini sydd wedi'u tangynrychioli ac sy'n anodd eu cyrraedd, nad ydynt yn perthyn yn naturiol i'r grwpiau hyn a'u bod yn teimlo nad oes clust i glywed eu lleisiau.

161. Dylid bod yn ofalus iawn i sicrhau na allai unrhyw ganfyddiad rhesymol gael ei ffurfio bod bwrdd wedi rhoi pwyslais anghymesur wrth ystyried ymatebion unrhyw un o'r ymgyngoreion, neu fod

gormod o bwyslais wedi'i roi i farn cymuned o fuddiannau. Byddai unrhyw ganfyddiad nad oedd y bwrdd wedi gweithredu'n ddiduedd yn tanseilio hyder y cyhoedd yn y bwrdd a gallai arwain at herio'r broses ymgynghori yn y llysoedd. Pe bai her yn y llys yn llwyddiannus byddai hynny'n golygu y byddai'n rhaid i asesiad bwrdd o lesiant lleol neu o gynllun llesiant lleol gael ei roi o'r neilltu.

162. Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, yr Egwyddorion ar gyfer Gweithio â Chymunedau a'r 'Practitioners’ Manual for Public Engagement' wedi cael eu cymeradwyo hefyd gan Lywodraeth Cymru a grwpiau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar y cyd megis y Bartneriaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Cyfranogi ac Ymgysylltu yng Nghymru.

163. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc[10] wedi cael eu cymeradwyo hefyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r safonau hyn gael eu mabwysiadu fel rhan o'r broses ymgysylltu y mae'r byrddau yn ymgymryd â hi wrth ymgynghori â phlant a phobl ifanc ynghylch yr asesiad, y cynllun a'r canlyniadau. Mae hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant yn ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol, yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (gweler Atodiad A ac Atodiad B).

## Pennod 5 - Adrodd ar gynnydd

164. Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi adroddiad yn ddim hwyrach nag 14 mis ar ôl cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol cyntaf. Bwriedir i hyn alluogi'r bwrdd i adrodd ar weithgaredd y flwyddyn lawn.

165. Wedi hynny, rhaid i adroddiad blynyddol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl cyhoeddi pob adroddiad blaenorol.

166. Yn y flwyddyn ar ôl etholiad llywodraeth leol cyffredin, pan fydd cynllun llesiant lleol newydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi, nid oes unrhyw ofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol hefyd. Os nad y cynllun llesiant lleol yw'r cynllun cyntaf a gyhoeddir gan y bwrdd, rhaid i'r cynllun ei hun nodi'r camau sydd wedi'u cymryd i gyflawni'r amcanion a nodwyd yng nghynllun blaenorol y bwrdd ac i ba raddau y mae'r amcanion hynny wedi'u bodloni.

167. Rhaid i'r adroddiad nodi'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi cynllun llesiant lleol mwyaf diweddar y bwrdd i fodloni'r amcanion a nodir yn y cynllun.

[10] http://www.participationworkerswales.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/National-Participation-Standards.pdf

168. Gallai'r adroddiad gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r bwrdd yn credu fyddai'n briodol hefyd.

169. Er enghraifft, disgwylid y bydd cynnydd yn cael ei fesur drwy gyfeirio at y Dangosyddion Cenedlaethol a, lle maent wedi eu gosod, y dangosyddion perfformiad a'r safonau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y dangosyddion cenedlaethol yn dangos newid mewn canlyniadau poblogaeth, er enghraifft, bod mwy o bobl ifanc o oedran a nodwyd wedi cyrraedd safon o lythrennedd. Byddai'r dangosyddion neu'r safonau perfformiad a fabwysiedir gan y byrddau neu a bennir gan Weinidogion Cymru yn dangos pa mor dda y mae'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi rhoi ei gynllun ar waith, er enghraifft, i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc sydd â chyfraddau llythrennedd gwael.

170. Rhaid i fwrdd anfon copi o bob adroddiad cynnydd blynyddol a gyhoeddir gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.

## Dangosyddion Perfformiad a Safonau

171. Mae Adran 50 y Ddeddf hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn rheoliadau, dangosyddion a safonau ar gyfer mesur perfformiad pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

172. Cyn gwneud y rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag aelodau statudol y bwrdd/byrddau gwasanaethau cyhoeddus, neu bersonau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn sy'n cynrychioli'r aelodau hynny, ac unrhyw bobl eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol.

## Pennod 6 - Atebolrwydd Lleol

173. Bydd cynllunio integredig lleol yn effeithiol dim ond os yw aelodau statudol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd eu hunain am sicrhau gwelliant, gyda phrosesau democrataidd lleol yn darparu her a chymorth priodol. Am y rheswm hwn, mae'r Ddeddf yn rhoi nifer cymharol fach o bwerau i Weinidogion Cymru ac mae'n dibynnu'n bennaf ar rôl craffu o fewn llywodraeth leol i sicrhau gwelliant parhaus.

174. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae gofyniad i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Mater i'r awdurdod lleol unigol fydd ei drefniadau ar gyfer craffu ar y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'n aelod ohono. Er enghraifft, gellir defnyddio pwerau deddfwriaethol sy'n bod eisoes i roi trefniadau ar y cyd ar waith, fel 'cyfethol' pobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod i eistedd ar y pwyllgor a lle bo'n briodol, penodi cyd-bwyllgorau sy'n rhychwantu ffiniau mwy nag un awdurdod lleol.

175. Er y bydd yn parhau i fod yn hollol gyfreithlon i bwyllgor craffu pwnc (megis pwyllgor craffu plant a phobl ifanc) graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â mater penodol, mae'n bwysig fod gan un pwyllgor drosolwg cyffredinol ar effeithiolrwydd y bwrdd. Dyma pam fod yn rhaid i un pwyllgor gael ei ddynodi i ymgymryd â'r gwaith hwn.

176. Swyddogaethau trosolwg a chraffu:

| Swyddogaethau Trosolwg a Chraffu | Rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod gan ei bwyllgor trosolwg a chraffu'r pŵer i: |
|---|---|
| | a) adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;<br>b) adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r bwrdd;<br>c) gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu ei drefniadau llywodraethu; |
| | d) ystyried materion sy'n ymwneud â'r bwrdd fel y gallai Gweinidogion Cymru gyfeirio ato ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a<br>e) chyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r bwrdd a osodir arno gan y Ddeddf. |

Llywodraeth Leol 2000. Trefniadau gweithredol yw trefniadau ar gyfer sefydlu a gweithredu gweithrediaeth gan awdurdod lleol, sy'n gyfrifol am rai o swyddogaethau'r awdurdod.

178. Rhoddir tystiolaeth i'r pwyllgor dynodedig ar ffurf yr asesiad drafft o lesiant a'r cynllun llesiant lleol (yr ymgynghorir yn ffurfiol ar y ddau ohonynt) a chopïau o fersiynau terfynol y ddau. Bydd hefyd yn derbyn adroddiadau blynyddol.

179. Yn ogystal, bydd y pwyllgor yn gallu pwyso ar y cyngor a gyhoeddwyd a ddarparwyd i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

180. Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod statudol o'r bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond o ran arfer swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddynt fel aelod o'r bwrdd dan y Ddeddf hon. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgaredd y bwrdd.

181. Rhaid i'r pwyllgor anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad y mae'n ei wneud at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

182. Rhaid i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus anfon copïau o fersiynau cyhoeddedig ei asesiadau o lesiant lleol, cynlluniau llesiant lleol (gan gynnwys adolygiadau ohonynt) a phob un o'i adroddiadau blynyddol at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ogystal ag at bwyllgor craffu'r awdurdod lleol.

183. Ni fydd gan Weinidogion Cymru na'r Comisiynydd unrhyw rôl o ran cymeradwyo asesiadau o lesiant lleol na'r cynlluniau llesiant lleol. Cynlluniau gan aelodau statudol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ei hun yw'r cynlluniau llesiant lleol hyn – maent yn eiddo i'r ardal dan sylw a phobl leol fydd yn craffu arnynt. Ond mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo bwrdd i adolygu'i gynllun llesiant lleol; neu i atgyfeirio cynllun at sylw pwyllgor craffu'r awdurdod lleol perthnasol os bernir ei fod yn annigonol; er enghraifft, oherwydd adroddiad gwael gan Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru neu os oes gan Weinidog bryderon nad yw dyletswyddau statudol yn cael eu gwneud.

184. Rhaid gofyn i'r Comisiynydd am ei gyngor wrth baratoi cynllun llesiant lleol, ac ymgynghorir yn ffurfiol ar yr asesiad o lesiant lleol ac o'r cynllun llesiant lleol. Gall hefyd roi cyngor a help i gyrff cyhoeddus ar sut i hyrwyddo egwyddor datblygu cynaliadwy. Mater i'r Comisiynydd a'r byrddau fydd penderfynu sut i weithio gyda'i gilydd; gan gofio, er na fydd y Comisiynydd yn adolygu byrddau gwasanaethau cyhoeddus, y bydd aelodau statudol a chyfranogwyr

gwadd y bwrdd yn ymwneud â'r Comisiynydd fel cyrff unigol sy'n cyflawni'r ddyletswydd lesiant.

185. Yn yr un modd, nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yntau rôl o ran archwilio byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ond caiff archwilio corff cyhoeddus i weld i ba raddau y mae wedi gweithredu'n unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion a gweithredu i'w cyflawni. Mae'n gwneud synnwyr felly darparu copi o gynlluniau llesiant lleol, adroddiadau blynyddol ac unrhyw adroddiadau gan y pwyllgor craffu, er mwyn iddo allu codi a mynd i'r afael â phryderon ynghylch materion a drafodir yn yr adroddiadau os teimlir bod cyfiawnhad gwneud hynny fel rhan o'i gyfrifoldebau ehangach.

## Pennod 7 - Uno a chydweithio

186. Mae'r Ddeddf yn darparu i ddau neu fwy o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus allu uno a chydweithio os byddai hynny yn eu cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

187. Ond mae byrddau yn gallu uno dim ond os -
   (a) yw'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd sy'n ceisio neu yn cael ei orchymyn i uno, ac
   (b) nad oes unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall yn aelod o unrhyw un o'r byrddau hynny.

188. Os bydd dau neu fwy o fyrddau yn uno, yna mae'n rhaid i gyfeiriadau yn Rhan 4 y Ddeddf at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y bwrdd cyfunedig, ac mae'n rhaid i gyfeiriadau yn Rhan 4 at ardal awdurdod lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r bwrdd sydd wedi'i uno.

189. Mae bwrdd yn cydweithio os yw yn -
   (c) cydweithio gyda bwrdd arall,
   (d) hwyluso gweithgareddau bwrdd arall,
   (e) cydlynu ei weithgareddau gyda bwrdd arall,
   (f) arfer swyddogaethau bwrdd arall ar ei ran, neu yn
   (g) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i fwrdd arall.

190. Lle bo byrddau wedi penderfynu uno neu gydweithio, rhaid wrth resymeg glir ar gyfer dod i'r penderfyniad hwnnw. Dylid cofnodi ac ystyried y rhesymau hynny a dylid cofnodi'r penderfyniad yn ffurfiol yn y cofnodion ynghyd â'r rhesymau pam y mae'r bwrdd yn credu y byddai'r uno neu'r cydweithio'n ei helpu i gyfranu at gyflawni ei nodau llesiant.

191. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i orchymyn dau neu fwy o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno; a'r pŵer i orchymyn dau neu fwy o wasanaethau cyhoeddus i gydweithredu; os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n cynorthwyo'r byrddau o ran cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

192. Cyn gorchymyn dau neu fwy o fyrddau i uno, neu i gydweithio rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob aelod statudol o'r byrddau maent yn bwriadu eu gorchymyn a chyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros ei roi.

## SPSF 3 - ATODIAD A

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) CRYNODEB DEDDFWRIAETHOL: DYLETSWYDDAU STATUDOL A ALLAI GAEL EU CYFLAWNI DRWY GYNLLUN LLESIANT LLEOL;**

<table>
<tr><th>DEDDFWRIAETH</th><th>DYLETSWYDD</th><th>GOFYNION CYNLLUNIO</th><th>PARTNERIAID</th></tr>
<tr><td colspan="4">Cynllun Partneriaeth Trosedd ac Anhrefn, Lleihau Troseddu a Chamddefnyddio Sylweddau</td></tr>
<tr><td>Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998</td><td>Mae Adran 6 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyfrifol penodedig i lunio a gweithredu:<br>• Strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn;<br>• Strategaeth ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill; a<br>• Strategaeth ar gyfer lleihau aildroseddu</td><td rowspan="2">Rhaid i'r asesiadau strategol gael eu paratoi yn flynyddol, ac mae'n rhaid i'r rhain gael eu hystyried wrth adolygu'r cynllun partneriaeth.<br><br>Dylai'r cynllun partneriaeth gael ei adolygu cyn dechrau pob blwyddyn.<br><br>Rhaid i gynllun partneriaeth nodi:<br>a) strategaeth ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn yn yr</td><td rowspan="2">Bydd y grwpiau statudol yn cynnwys dau neu ragor o bersonau a benodwyd gan un neu ragor o'r awdurdodau cyfrifol.<br><br>Yr awdurdodau cyfrifol penodedig yw:<br>a) Yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr ardal;<br>b) darparwyr gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn yr ardal (sy'n cael eu hadnabod o dan adran 3 Deddf Rheoli</td></tr>
<tr><td>Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007</td><td>Mae Rheoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth bellach o ran llunio a gweithredu'r strategaethau hyn.</td></tr>
</table>

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu'r Strategaeth) (Cymru) 2007 | Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i grwp strategaeth gael ei sefydlu sy'n gorfod:<br>• Paratoi asesiadau strategol; a<br>• Pharatoi a gweithredu cynllun partneriaeth.<br>ar gyfer yr ardal ar ran yr awdurdodau cyfrifol.<br><br>Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i drefniadau gael eu gwneud i allu rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdodau cyfrifol. | ardal; ar gyfer lleihau aildroseddu yn yr ardal ac ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal;<br>b) Y blaenoriaethau a nodir yn yr asesiadau strategol;<br>c) Y camau y mae'r grŵp strategaeth yn ystyried sy'n angenrheidiol i'r swyddogion cyfrifol eu cymryd i weithredu'r strategaeth honno a bodloni'r blaenoriaethau hynny;<br>d) Sut mae'r grŵp strategaeth yn ystyried y dylai'r awdurdodau cyfrifol ddyrannu a threfnu eu hadnoddau i weithredu'r strategaeth honno a bodloni'r blaenoriaethau hynny;<br>e) Y camau y bydd pob awdurdod cyfrifol yn eu cymryd i fesur ei lwyddiant yn gweithredu'r strategaeth a bodloni'r blaenoriaethau hynny; a<br>f) Y camau y mae'r grŵp strategaeth yn bwriadu eu cymryd yn ystod y flwyddyn i gydymffurfio â'i rwymedigaethau | Troseddwyr 2007 fel awdurdodau cyfrifol);<br>c) prif swyddog yr heddlu, y mae unrhyw ran o'i ardal heddlu o fewn yr ardal;<br>d) Awdurdodau tân ac achub; y mae unrhyw ran o'u hardal o fewn yr ardal;<br>e) Byrddau Iechyd Lleol, y mae'r cyfan ohono neu unrhyw ran o'i ardal o fewn yr ardal.<br><br>Nid yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn awdurdod cyfrifol.<br><br>Wrth lunio a gweithredu eu cynlluniau partneriaeth rhaid i'r awdurdodau cyfrifol weithio mewn cydweithrediad â:<br>a) Y bwrdd prawf lleol, y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn yr ardal llywodraeth leol;<br>b) Darparwyr gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn yr ardal (sy'n cael eu hadnabod o dan adran 3 y Ddeddf Rheoli Troseddwyr fel cyrff sy'n cydweithredu);<br>c) Unrhyw bersonau eraill a ragnodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru.<br><br>Mae Rheoliadau 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i'r grwpiau strategaeth wneud trefniadau i geisio barn y personau a'r cyrff sy'n byw a gweithio yn yr ardal wrth baratoi'r asesiadau strategol a pharatoi a gweithredu'r cynlluniau partneriaeth. |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc** | | | |
| Deddf Plant 2004 | Mae adran 25 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng:<br>a) Yr awdurdod<br>b) Pob un o bartneriaid perthnasol yr awdurdod<br>c) Pa bynnag bersonau neu gyrff eraill y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn briodol<br>gyda golwg ar wella llesiant plant yn ardal yr awdurdod.<br><br>Mae gan y partneriaid perthnasol yn eu tro ddyletswydd i gydweithredu â'r awdurdod lleol.<br><br>Mae Adran 27 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyfarwyddwr arweiniol ac aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Rhaid i'r BILl hefyd benodi swyddog arweiniol ac aelod o'r Bwrdd ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc a rhaid i Ymddiriedolaeth y GIG benodi cyfarwyddwr gweithredol arweiniol a chyfarwyddwr anweithredol arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Cyfrifoldeb y personau hyn | Gallai gwybodaeth am y trefniadau y mae awdurdod lleol yn eu gwneud o dan yr adran hon gael ei chynnwys yng nghynllun llesiant lleol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol yn aelod ohono. | At ddibenion yr adran hon y partneriaid perthnasol yw:<br>a) Y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu ar gyfer ardal heddlu, y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod;<br>b) Y gwasanaethau prawf sy'n gweithredu yn ardal yr awdurdod;<br>c) Y timau troseddau ieuenctid ar gyfer ardal, y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod;<br>d) Y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal, y mae unrhyw ran ohono yn dod o fewn ardal yr awdurdod;<br>e) Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod;<br>f) Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag addysg bellach ac addysg chweched dosbarth yng Nghymru. |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | yw goruchwylio swyddogaethau eu cyrff mewn perthynas â chynllunio a gwneud trefniadau ar gyfer gwella llesiant plant yn eu hardal. | | |
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | Mae adran 2 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i "awdurdod yng Nghymru" baratoi a chyhoeddi strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.<br><br>Rhaid i'r strategaeth gynnwys amcanion sy'n ymwneud ag un neu ragor o'r nodau eang a nodir yn y Mesur sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant ac a allai gael eu dilyn wrth iddo arfer ei swyddogaethau; a'r camau sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod at y diben o gyflawni'r amcanion. Rhaid i awdurdod Cymreig gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r camau hyn ac ymarfer y swyddogaethau hyn. | Mae'r ddyletswydd i gyhoeddi strategaeth o dan adran 2 y Mesur yn cael ei chyflawni yn dilyn cyhoeddi gan yr awdurdod gynllun llesiant lleol gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol yn aelod ohono, ond dim ond os yw Strategaeth Tlodi Plant yr awdurdod lleol yn rhan annatod o'r cynllun hwnnw.<br>Mae dyletswydd "awdurdodau Cymreig" eraill i gyhoeddi strategaeth yn cael ei chyflawni os yw'r strategaeth yn rhan annatod o gynllun llesiant lleol gan bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal awdurdod lleol y mae'r awdurdod Cymreig yn arfer swyddogaethau ynddi. | At ddibenion y Mesur mae pob un o'r canlynol yn awdurdod Cymreig:<br>a) Gweinidogion Cymru<br>b) Awdurdod lleol<br>c) Bwrdd Iechyd Lleol<br>d) Awdurdod Tân ac Achub<br>e) Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru<br>f) Corff Adnoddau Naturiol Cymru<br>g) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>h) Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>i) Amgueddfa Genedlaethol Cymru<br>j) Cyngor Celfyddydau Cymru<br>k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru<br>l) Cyngor Chwaraeon Cymru |
| **Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant** | | | |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Mae Adran 14 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a phob Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol i asesu ar y cyd:<br>a) Y graddau y mae yna bobl yn | O dan Adran 14A y Ddeddf rhaid i'r 'corff perthnasol' (awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol sydd wedi cynnal asesiad ar y cyd o dan adran 14(1)), baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi:<br>a) Ystod a lefel y gwasanaethau | Yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol. |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | ardal yr awdurdod lleol sydd angen gofal a chefnogaeth;<br>b) Y graddau y mae yna ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol sydd angen cymorth;<br>c) Y graddau y mae yna bobl yn ardal yr awdurdod lleol nad yw eu hanghenion am ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwyr, cefnogaeth) yn cael eu bodloni;<br>d) Ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion gofal a chymorth y bobl yn ardal yr awdurdod lleol (gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr)<br>e) Ystod a lefel y gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni'r dibenion yn adran 15(2) y Ddeddf (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol;<br>f) Y camau gweithredu sydd eu hangen i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodwyd trwy gyfrwng y Gymraeg. | mae'r corff yn bwriadu eu darparu, neu drefnu i gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad o anghenion;<br>b) Yn achos yr awdurdod lleol, ystod a lefel y gwasanaethau mae'r awdurdod yn bwriadu eu darparu, neu drefnu i gael eu darparu, wrth geisio cyflawni'r dibenion yn adran 15(2) (gwasanaethau ataliol);<br>c) Yn achos y Bwrdd Iechyd Lleol, unrhyw beth y mae'r Bwrdd yn bwriadu ei wneud mewn cysylltiad â'i ddyletswydd o dan adran 15 (5) (Byrddau Iechyd Lleol i roi sylw i bwysigrwydd camau ataliol wrth arfer ei swyddogaethau);<br>d) Sut mae'r gwasanaethau a nodir yn y cynllun yn mynd i gael eu darparu, gan gynnwys y camau gweithredu y mae'r corff yn bwriadu eu cymryd i ddarparu, neu drefnu i ddarparu, y gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg;<br>e) Unrhyw gamau eraill y mae'r corff yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r asesiad;<br>f) Manylion unrhyw beth y mae'r corff yn bwriadu ei wneud mewn ymateb i'r asesiad ar y | |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | | cyd â chorff perthnasol arall;<br>g) Yr adnoddau sydd i gael eu defnyddio wrth wneud y pethau a nodwyd yn y cynllun.<br><br>Gallai cynllun corff perthnasol gael ei gyhoeddi drwy ei gynnwys o fewn cynllun llesiant lleol gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r corff yn aelod ohono.<br><br>Gallai awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol sydd wedi cynnal asesiad ar y cyd baratoi a chyhoeddi cynllun gyda'i gilydd.<br><br>Gallai dau neu fwy o awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynllun ar y cyd, ond dim ond drwy ei gynnwys mewn cynllun llesiant lleol y gallai cynllun ar y cyd o'r fath gael ei gyhoeddi os yw pob awdurdod lleol yn aelod o'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Rhaid i gorff perthnasol gyflwyno unrhyw ran o'r cynllun sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant gofalwyr i Weinidogion Cymru.<br><br>Rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried yr asesiad diweddaraf a gynhaliwyd o dan adran 14 wrth baratoi ei asesiad o | |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | | lesiant lleol. | |
| Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 | Mae adran 2 y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar gynllun:<br>• Sy'n dynodi'r driniaeth sydd i fod ar gael ar gyfer yr ardal honno at ddibenion triniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol; ac<br>• Sy'n sicrhau darpariaeth ar gyfer y maes hwnnw o wasanaethau, gan gynnwys triniaeth iechyd meddwl sylfaenol leol, a ddisgrifir yn adran 5 y Mesur (gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol).<br><br>Rhaid i gynllun ddynodi i ba raddau y mae pob un o'r partneriaid i fod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.<br><br>Yn amodol ar eithriadau cyfyngedig, rhaid i'r partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn unol â'r canlynol- | Os cytunir ar gynllun, rhaid i'r partneriaid sicrhau ei fod yn cael ei gofnodi'n ysgrifenedig.<br><br>Caiff cynllun ei gofnodi drwy ei gynnwys o fewn cynllun llesiant lleol gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un o'r partneriaid yn aelod ohono. | At ddibenion y Mesur hwn, y partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal awdurdod lleol yw -<br>(a) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal yr awdurdod lleol; a<br>(b) yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal honno. |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | (a) cynllun ar gyfer eu hardal a gytunwyd o dan adran 2; neu<br>(b) gynllun ar gyfer eu hardal a benderfynwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 4 (os na fydd y partneriaid iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal yn gallu cytuno ar gynllun) | | |
| **Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | | | |
| Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol baratoi strategaeth ("strategaeth leol") ar gyfer ardal yr awdurdod lleol ar y cyd.<br><br>Mae'n rhaid i strategaeth leol -<br>(a) nodi amcanion y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried a fydd, os cyflawnir nhw, yn cyfrannu at anelu at gyflawni diben y Ddeddf hon;<br>(b) pennu'r cyfnodau o amser y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig;<br>(c) nodi'r camau y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a nodwyd.<br>(3) Caiff awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol bennu amcanion sy'n | Rhaid i strategaeth leol gyntaf awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol gael ei chyhoeddi heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl y dyddiad y mae'r etholiad cyffredin cyntaf yn cael ei gynnal yn dilyn y dyddiad y mae adran 5(1) yn cael ei dechrau.<br><br>Heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredin dilynol, rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol adolygu eu strategaeth leol.<br><br>Gallai strategaeth leol neu strategaeth ddiwygiedig gael eu cyhoeddi o fewn cynllun llesiant lleol a gyhoeddwyd gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod ohono. | Rhaid i awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol ymgynghori â pha bynnag bersonau y maent yn ystyried sy'n briodol cyn -<br>(a) cyhoeddi eu strategaeth leol cyntaf;<br>(b) diwygio eu strategaeth leol. |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | ymwneud â'r cyfan o ardal yr awdurdod neu unrhyw ran ohoni.<br>(4) Gallai strategaeth leol hefyd gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â chamau penodol y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn disgwyl iddynt gael eu cymryd mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol gan -<br>(a) unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau sy'n gallu cyfrannu at anelu at gyflawni dibenion y Ddeddf hon, neu<br>(b) unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y mae eu gweithgareddau yn gallu cyfrannu at anelu at gyflawni'r diben hwnnw.<br>(5) Ond i gynnwys mewn strategaeth leol unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chamau a grybwyllir yn isadran (4) mae angen cymeradwyaeth y corff neu'r person o dan sylw.<br><br>Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer ei swyddogaethau, gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth leol a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ar gyfer ei ardal.<br><br>Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol y paratôdd yr awdurdod y | | |

| DEDDFWRIAETH | DYLETSWYDD | GOFYNION CYNLLUNIO | PARTNERIAID |
|---|---|---|---|
| | strategaeth honno ag ef, wrth arfer ei swyddogaethau, gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a nodir yn y strategaeth. | | |

**SPSF 3 - ATODIAD B**

## CANLLAWIAU STATUDOL YNGHYLCH CYFRANOGIAD PLANT A PHOBL IFANC

**Mae'r canllawiau statudol hyn yn cael eu cyhoeddi yn unol ag Adran 17(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[1] ac maent yn berthnasol i awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, a phryd bynnag y byddant yn gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddyletswydd hon yw Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol *wneud trefniadau y maent yn ystyried sy'n addas i hybu a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, ac i gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am ei drefniadau.* Gallai'r dyletswyddau hyn gael eu cyflawni drwy'r cynllun llesiant lleol.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[2] yn gonfensiwn rhyngwladol sy'n nodi hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant hyd at 18 oed. Mae'n cydnabod nid yn unig eu hawliau dynol sylfaenol ond yn rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae gan CCUHP 54 o erthyglau. Mae erthyglau 1-41 yn nodi sut y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin. Mae'r 13 o erthyglau eraill yn nodi sut y dylai llywodraethau ac oedolion gydweithio i sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at eu hawliau.

Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad i'r Confensiwn yn cael ei ymgorffori mewn deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[3]. Mae Adran 1 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried sut mae'r hyn maent yn ei wneud yn cysylltu â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP a manteisiwyd ar bob cyfle i nodi sut i wireddu'r hawliau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, mae hyn yn treiddio i lawr i'r lefel leol drwy ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau statudol.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan sy'n hawl sylfaenol ac yn hawl galluogi fel y nodir yn Erthygl 12 o'r CCUHP:

> Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch beth maent yn meddwl a ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy, ac i gael eu barn wedi ei hystyried.
>
> **Erthygl 12 (Parchu barn y plentyn)**

[2] http://www.hawliauplant.cymru/images/PDF/CCUHP_Professional_Poster.pdf

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents

Mae erthyglau'r CCUHP wedi'u crynhoi'n Saith Nod Craidd[4] a ddylai fod yn sail i arferion gwaith unrhyw ddarpariaeth gan wasanaeth sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn genedlaethol ac yn lleol. Mae Nod Craidd 5 yn arbennig yn ymwneud â chyfranogiad plant a phobl ifanc gyda'r nod:

> *Bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, ac yn cael eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol wedi'u cydnabod.*
>
> **Nôd Craidd 5**

## Gofynion

Er mwyn bodloni gofynion y Ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn cyd-destun eang y CCUHP, fel rhan o'u polisïau, gwasanaethau a'r ymgysylltu ehangach â dinasyddion. Mae disgwyl i Awdurdodau Lleol sicrhau bod cymaint o blant a phobl ifanc â phosibl yn ymwybodol o'u hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn, gan gynnwys eu hawl i gymryd rhan ac i'w barn gael ei chlywed, a'u hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau am bolisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau;

- gwreiddio cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys Asesu Llesiant Lleol, y cynllun llesiant lleol ac is-gynlluniau perthnasol;

- mabwysiadu Safonau Cyfranogi Cenedlaethol[5]. Mae cefnogaeth i'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru a cheir llawer o enghreifftiau o arferion da o gyrff sydd wedi mabwysiadu'r safonau fel cyfrwng i sicrhau bod unrhyw gyfranogiad yn ystyrlon ac effeithlon. Y disgwyliad yw i bob Awdurdod Lleol fabwysiadu y Safonau pan yn cwrdd a'u dyletswydd statudol ynglyn â chyfranogiad plant a phobl ifanc;

- cyhoeddi gwybodaeth am fanteision a threfniadau hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad yn yr awdurdod, a rhannu enghreifftiau o arferion da, er enghraifft, trwy wefannau a thaflenni newyddion yn ogystal ag ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy weithio gyda 'Young Wales'. Gall y plant a'r bobl ifanc eu hunain gymryd rhan amlwg i godi ymwybyddiaeth am

[4] http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/rights/implementation-of-childrens-rights/?skip=1&lang=cy

[5] http://www.participationworkerswales.org.uk/wp-content/uploads/2014/07/National-Participation-Standards.pdf

bwysigrwydd cyfranogaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o adnoddau a allai gefnogi hyn ac y gellid eu haddasu yn ôl anghenion lleol. Yn ogystal â defnyddio adnoddau a'r cyfryngau sy'n rhwydd eu cyrraedd gan blant a phobl ifanc, gellid cynnwys gwybodaeth yn adroddiad cynnydd blynyddol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;

- dylai gwybodaeth a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc fod yn glir ac yn hawdd i'w deall. Dylent ateb eu cwestiynau a'r anghenion a nodwyd ganddynt, yn ogystal â bod yn gywir, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn hygyrch o ran iaith a fformat.

- sicrhau bod ystod o gyfleoedd a'r gefnogaeth briodol yn cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad effeithiol. Dylai'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc fel unigolion gymryd rhan gael eu hintegreiddio i'r gwasanaethau o ddydd i ddydd yn ogystal â strwythurau cyfranogi penodol megis fforymau ar gyfer plant, fforymau ar gyfer pobl ifanc, neu grwpiau/fforymau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, rhai sy'n fregus neu rai sydd â diddordeb arbennig mewn mater penodol. Mae gan y fforymau a'r grwpiau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi plant a phobl ifanc i gael llais ac i ddefnyddio eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn;

- cefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid Sirol fel corff cynrychiadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac at gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc sy'n fwy ar yr ymylon. Er mwyn i Fforymau/ Cynghorau Ieuenctid Sirol weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn. Dylent gael eu hysbysu gan eu strwythurau democrataidd lleol a'u cysylltu â hwy. Bydd angen iddynt hefyd gysylltu'n effeithiol i mewn i strwythurau cyfranogiad cenedlaethol megis 'Young Wales', Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

- rhoi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg wrth hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad ac fel rhan o baratoi'r cynllun llesiant lleol, gan adlewyrchu ei statws swyddogol yng Nghymru a'r nod llesiant cenedlaethol sef 'y Gymraeg yn ffynnu'.

**Gweithio gyda phartneriaid**

Er bod y canllawiau statudol hyn, a gyhoeddwyd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[6], yn ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn unig, byddem yn eu hannog i weithio'n agos gyda phob un o'u partneriaid perthnasol. Mae gweithio mewn ffordd

6 http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents

amlasiantaethol yn arfer da ac mae Adran 25 Deddf Plant 2004[7] yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cydweithrediad gyda'r bwriad o wella llesiant plant yn yr ardal. Ymhellach, mae Adran 38 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[8] yn rhoi gofyniad ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus hefyd i ymgynghori wrth asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal**.**

Mae llawer o enghreifftiau o bartneriaid sy'n cyfrannu at gyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn ei brif ffrydio i'w meysydd gwaith a'u trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion. Gwelir rhai o'r rhain ar www.cymruifanc.cymru a www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/hafan/

## Beth sy'n digwydd nawr?

Mae cwmpas y ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc yn ehangach na chael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol. Mae'n bwysig fod cyfranogiad yn dod yn rhan o bolisi ac arferion yr holl bartneriaid lleol. Dylai Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei hyrwyddo a'i hwyluso.

Fodd bynnag, gallai'r cynllun llesiant esbonio sut y gellid sicrhau bod pob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau a'u "trefniadau ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad" wneud cyfranogiad ac ymgysylltiad plant a phobl ifanc yn ganolog iddynt. Gallai adroddiad cynnydd y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnwys crynodeb i esbonio sut mae'r dyletswyddau statudol hyn wedi'u cyflawni a sut y gellid gwneud yn well. Gallai adroddiad cynnydd blynyddol y byrddau gwasanaethau cyhoeddus ystyried y nodweddion gwarchodedig, yn enwedig o ran oed, gan adrodd yn benodol ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd Llywodraeth Cymru'n monitro trefniadau lleol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Hefyd, mae cynlluniau llesiant lleol yn rhoi tystiolaeth i Arolygiaethau a Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) wrth iddynt gynnal adolygiadau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Gallai Arolygiaethau a'r WAO hefyd adolygu'r canlyniadau a gyflawnwyd a'r gweithdrefnau cysylltiedig i ddangos pa mor effeithiol y mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u cynnwys. Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael gwrandawiad, i gael llais ac i allu cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau lle bynnag y bônt - yn yr ysgol, o gwmpas yn y gymuned neu fel defnyddwyr gwasanaethau.

Ein huchelgais yw i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru wireddu eu hawliau fel y nodir hwy yn y Confensiwn. Efallai y bydd yna weithiau rwystrau i gyflawni hyn, ond drwy weithio mewn ffordd gydweithredol, mae gennym ni i gyd rôl o ran ystyried

[7] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/pdfs/ukpga_20040031_en.pdf

[8] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/section/38/enacted

ffyrdd y gallai'r rhwystrau hyn gael eu dileu neu eu goresgyn. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd o ran cyfranogaeth plant a phobl ifanc, a rhaid cynnal y momentwm.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am arfer da mewn perthynas â chyfranogiad plant a phobl ifanc ar http://www.hawliauplant.cymru/ neu http://www.childrensrights.wales/images/PDF/Participation_En2.pdf

Mae gwybodaeth, adnoddau, deunyddiau ac arfer da sy'n cefnogi cyfranogiad yng Nghymru ar gael hefyd yn www.cymruifanc.cymru.